Cymru yn Fenis
Wales in Venice
Il Galles a Venezia

# Cymru yn Fenis

## Galwad Agored

## 2026



## Hygyrchedd

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, fformat hawdd i'w ddarllen, Braille, sain ac Arwyddeg. Ymdrechwn i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Os oes gennych unrhyw anghenion hygyrchedd a'ch bod yn ystyried ymgeisio, bydd modd inni eich helpu a chael eich cefnogi yn ystod y broses. Cysylltwch â ni yn grantiau@celf.cymru i drafod hyn.

Gweithredwn Bolisi Cyfle Cyfartal.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

**Clawr**: Helen Sear, *caetera fumus* (detail)

# Cynnwys


Cymru yn Fenis .......... 3
Cyflwyniad .......... 4
Cymru yn Fenis .......... 6
Beth mae'r cyfle yn ei gynnig yn 2026? .......... 8
Sut byddwn yn cyflawni'r prosiect? .......... 9
Pwy sy'n gallu ymgeisio? .......... 14
Bod yn gymwys .......... 14
Meini prawf dewis .......... 15
Amserlen .......... 15
Proses ymgeisio .......... 17
Beth os oes angen cymorth hygyrchedd arnaf? .......... 20
Beth os oes gennyf gwestiwn? .......... 20



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cymru yn Fenis

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gwahodd mynegi diddordeb gan sefydliadau sy'n gweithio ym maes celfyddydau gweledol Cymru i guradu a chyflwyno arddangosfa uchelgeisiol Cymru yn Fenis i 61ain Arddangosfa Gelf Ryngwladol, La Biennale di Venezia.

Byddwn yn croesawu'n arbennig gynigion a fydd yn creu cyfleoedd rhyngwladol i artistiaid amrywiol sy'n byw yng Nghymru ddatblygu eu gwaith mewn ffordd sy'n deg i bobl ac i'r blaned.

1pm ddydd Mercher 4 Mehefin 2025 yw'r dyddiad cau ymgeisio.

Bydd y Biennale yn digwydd rhwng 9 Mai a 22 Tachwedd 2026. Mae'n un o wyliau mwyaf mawreddog y byd ym maes y celfyddydau cyfoes ac yn denu cynulleidfa o 700,000.

Y Cyngor a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru (cangen ryngwladol y Cyngor) sy'n comisiynu a rheoli Cymru yn Fenis gyda chymorth Llywodraeth Cymru.

Mae ein cynlluniau uchelgeisiol i arddangos celfyddydau a diwylliant Cymru ar lwyfan rhyngwladol yn ein strategaeth ddiweddar gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru.

# Cyflwyniad

Naw gwaith mae'r Cyngor wedi comisiynu arddangosfeydd yn y Biennale gan ddechrau yn 2003.

Drwy gynnal presenoldeb yno, mae artistiaid o Gymru wedi arddangos eu gwaith a sbarduno deialog ryngwladol, herio canfyddiadau a dangos grym deinamig diwylliant cyfoes Cymru.

Byddwn yn adnewyddu ein hymrwymiad i Gymru yn Fenis yn 2026, 2028 a 2030. Rydym yn anelu at adeiladu ar etifeddiaeth ddiwylliannol yr 20 mlynedd diwethaf a diwallu'r angen brys am gynnal llais artistig Cymru ar y llwyfan byd-eang.

I gyflawni'r gwaith pwysig, byddwn yn cymryd camau beiddgar i gyflwyno Cymru yn Fenis yn 2026.



James Richards
Music for the gift, 2017,
llun cynhyrchu
Llun archif trwy garedigrwydd
The Schwules Museum*, Berlin

# Cymru yn Fenis

Rydym yn comisiynu artistiaid i gyflwyno digwyddiad cyfochrog yn y Biennale i ddathlu'r gorau o artistiaid hen a newydd Cymru.

Bydd y dewis brosiect i 2026 yn ailgychwyn presenoldeb ac uchelgais Cymru yno. Bydd yn adeiladu ar ein henw da a'n profiad wrth gyflwyno dulliau cyflawni newydd a chefnogi cynlluniau hir dymor ar gyfer 2028 a 2030.

Bydd prosiect 2026 yn cael ei ddewis gan alwad agored am gynigion.

Nod Cymru yn Fenis yw:

- Arddangos celfyddydau gweledol Cymru amrywiol a blaengar ar lwyfan byd-eang.
- Bod yn uchelgeisiol a beiddgar a chysylltu â chynulleidfaoedd lleol a byd-eang.
- Creu profiadau a chysylltiadau rhyngwladol i orielau, curaduron ac artistiaid a fydd yn datblygu ein celfyddydau gweledol.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal i ddymchwel rhwystrau i gymryd rhan a chael cydnabyddiaeth.
- Arloesi ym maes cynaliadwyedd amgylcheddol yn y celfyddydau yn ôl egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol a chyfrifoldeb byd-eang.
- Codi proffil ein celfyddydau gweledol gan ddenu diddordeb a thrafodaeth ryngwladol.

Laura Ford
Glory, Glory
Somewhere Else: Artists
from Wales, 2005



## Dyma egwyddorion datblygu'r prosiect:

- Cynnwys cydraddoldeb, hygyrchedd a'r Gymraeg ym mhob agwedd ar y prosiect.
- Gweithio mewn ffordd agored, foesegol a chyfrifol i fesur, lleihau a lliniaru'r effaith amgylcheddol.
- Cynnig taliadau arferol y diwydiant a chynnal gweithle cadarnhaol.
- Creu'r gwerth mwyaf i gael enillion eithriadol ar ein buddsoddiad drwy bartneriaethau strategol a chyfleoedd i arallgyfeirio ffrydiau ariannu.
- Cael strwythur llywodraethu a rheoli cryf mewn fframwaith gwerthuso cadarn.

## Beth mae'r cyfle yn ei gynnig yn 2026?

- Digwyddiad cyfochrog i ddangos presenoldeb cryf i Gymru yno.
- Dull cydweithiol ac amgylcheddol sy'n rhoi amser a lle i dîm  creadigol ymchwilio, datblygu a chyflwyno gwaith newydd.
- Cyfle gwych i gydweithio a ffurfio partneriaethau newydd i gyflawni'r prosiect a'r rhaglen ymgysylltu.
- Creu arddangosfa groesawgar a hygyrch.
- Cyfleoedd datblygu proffesiynol i gefnogi unigolion o gefndir amrywiol ac sydd ar sawl cam yn eu gyrfa a'u hymarfer.
- Ymgyrch gyfathrebu feiddgar sy'n rhoi cyfleoedd ardderchog gyda'r cyfryngau ac yn ddigidol.
- Rhwydweithiau a chysylltiadau newydd rhwng celfyddydau gweledol Cymru a'r byd.
- Amlygu ein celfyddydau gweledol fydd o fudd i'r sector ehangach.
- Rhaglen deithio a chyhoeddus newydd yma sy'n rhannu gwaith sydd wedi'i werthfawrogi gan feirniaid rhyngwladol i ddatblygu'r gynulleidfa.
- Herio arferion gweithio'n rhyngwladol i arloesi a meddwl yn feirniadol a chreadigol am broblemau ein hoes.

Bedwyr Williams,
The Northern Hemisphere,
cyfryngau cymysg,
The Starry Messenger, 2013
Llun: Anna Arca



## Sut byddwn yn cyflawni'r prosiect?

Mae Cymru yn Fenis yn bartneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru, **y Comisiynydd** a'r **Tîm Creadigol**.

## Y Tîm Comisiynu

Y Cyngor fydd yn comisiynu'r Tîm Creadigol gyda'r cyfrifoldebau a cherrig milltir yn y cytundeb â'r sefydliad arweiniol.

Rheolwr Portffolio'r Celfyddydau Gweledol fydd yn goruchwylio'r gyllideb a rheoli'r prosiect. Bydd yn cydweithio'n agos â'r Tîm Creadigol ond yn bennaf â Chyfarwyddwr yr Arddangosfa.

A ninnau'n Gomisiynydd, y Cyngor fydd yn arwain ar drafodaethau am rentu'r lleoliad a chysylltu â'r Biennale. Byddwn yn rheoli gweinyddu a chyllideb i dalu am y lleoliad, pob caniatâd, cofrestru â'r Biennale a'r rhaglen datblygu'n broffesiynol – Goruchwylio Arbennig. Rydym hefyd yn comisiynu, rheoli a chydlynu gwaith y cyfryngau a chysylltiadau cyhoeddus.

Rydym yn disgwyl cydweithio'n agos â'r Tîm Creadigol gan eich gwahodd i gyfrannu at ein gweithgarwch a'ch cynnwys mewn rowndiau perthnasol o recriwtio. Y Cyngor fydd yn cadeirio Cyfarfodydd Rheoli Prosiect i fonitro cynnydd a chyflawniad.

Byddwn hefyd yn cynnull Grŵp Llywio i ddatblygu'r prosiect. Bydd yn cwrdd bob chwarter.

Byddwn yn adeiladu ar enw da Goruchwylio Arbennig a'r cyn-gyfranogwyr i greu rhaglen newydd i gefnogi unigolion sy'n wynebu rhwystrau i fachu ar gyfleoedd rhyngwladol yn y maes. Byddwn yn gweithio gyda'r tîm i ddatblygu'r rhaglen a'i hintegreiddio yn y prosiect creadigol a'r cynlluniau ymgysylltu.

Ar hyn o bryd rydym yn sicrhau lleoliad i 2026. Byddwn yn rhannu gwybodaeth dechnegol a chynlluniau llawr â'r tîm pan fyddant ar gael. Rydym yn chwilio am ryw 100–150 metr sgwâr yng nghanol Fenis, yn amodol ar gost ac argaeledd.

## Y Tîm Creadigol

Rydym yn hyblyg am ffurf a chyfansoddiad y Tîm Creadigol sy'n gyfrifol am gyflwyno a churadu'r arddangosfa. Byddai'n bosibl ei churadu'n fewnol yn eich sefydliad gan roi cyfleoedd datblygu i'ch staff neu weithio gyda phartner neu benodi rhywun llawrydd neu annibynnol.

Ond dylai model a graddfa eich prosiect ddangos budd i'r artist a'r sefydliad dan sylw. Dylai gyd-fynd â'r gallu a'r adnoddau sydd yno i gyflawni eich cynnig.

Byddwn yn cydweithio â chi i lunio'r model cyflawni i gefnogi gallu eich tîm i wireddu'r prosiect os byddwch yn llwyddo.
Ein nod yw creu strwythur rheoli a chyflawni effeithiol sydd â swyddogaethau clir a fydd yn sail i'r bartneriaeth gyflawni.

## Y Gyllideb

£400,000 fydd y gyllideb dros ddwy flynedd. Bydd yn talu am holl gostau'r prosiect. Byddwn yn ei rhannu rhwng costau'r Comisiynydd a chostau arddangos a chyflenwi'r Tîm Creadigol.

**O ran mynegi diddordeb, £188,000 yw cyllideb y Tîm Creadigol.** Mae templed cyllideb yma.

Mae enghreifftiau o gostau arddangos a chyflenwi yn nhempled y gyllideb. Dylai gwariant technegol a chludo dargedu cydweithwyr a darparwyr o Gymru lle bynnag y bo modd.

Mae'n bwysig trosoli arian ychwanegol ond rhaid i'r cynnig ddangos ei fod yn bosibl gyda'r adnoddau yma a dangos gwerth am arian.

Byddwn yn trafod eich cyllideb yn bellach os byddwch yn llwyddo. Bydd yn cynnwys costau cymorth hygyrchedd i unigolion sy'n gweithio'n uniongyrchol ar y prosiect. Byddai hygyrchedd yn gallu cynnwys costau cyfieithydd Arwyddeg, gweithwyr cymorth neu gostau gofal plant. Ond peidiwch â'u cynnwys ar hyn o bryd wrth fynegi diddordeb.



Tim Davies
Drift, (llun llonydd) 2011

## Pwy sy'n gallu ymgeisio?

- Sefydliadau sydd â phrofiad o reoli arian cyhoeddus. Rydym yn disgwyl ichi gymryd cyfrifoldeb am y gyllideb, materion ariannol, contractio a diogelu.
- Gall aelodau o'r tîm fod o'r tu allan i Gymru gan gynnwys y curadur a'r artist ond rhaid iddynt ddangos gwybodaeth ddofn o gelfyddydau gweledol Cymru a bod â chysylltiad â nhw a gwybod am eu manteision.
- Mae orielau masnachol yn gallu bod yn rhan o'r tîm ond rhaid iddynt ddangos budd cyhoeddus clir ac osgoi gwrthdaro buddiannau.

Nid oes rhaid bod â phrofiad rhyngwladol blaenorol. Ond rhaid ichi fod â hanes cryf o arddangos a (lle bo angen) bydd modd ichi gynnwys cydweithwyr a/neu fentoriaid â phrofiad rhyngwladol i'ch cefnogi.

## Bod yn gymwys

- Rhaid i sefydliadau fod yng Nghymru.
- Rhaid i bob sefydliad fodloni ein meini prawf cymhwysedd yma.
- Rydym yn gyfrifol am wario arian cyhoeddus yn briodol. Un ffordd o wneud hyn yw sicrhau bod sefydliadau wedi'u sefydlu'n briodol.

## Meini prawf dewis

Bydd y panel yn dewis prosiect creadigol sy'n bodloni amcanion y prosiect ac sy'n:

- dangos safon artistig eithriadol a phosibiliadau rhyngwladol.
- creu manteision pendant i artistiaid Cymru.
- cryfhau'r cysylltiadau â chynulleidfaoedd lleol a byd-eang.
- cyflawni ein hymrwymiad i'r Gymraeg, cydraddoldeb ac ymgysylltu.

Hefyd bydd y panel yn ystyried sut mae'n:

- dangos gwaith partneriaeth arbennig gan sicrhau cyfleoedd newydd a buddsoddiad posibl i Gymru.
- cyflawni ein hamcanion llesiant gan gynnwys ein hymrwymiad i gyfiawnder hinsawdd.

Amcan cyffredinol yw bod y prosiect yn bosibl ei gyflawni yn ôl yr amserlen i fodloni dyddiadau cau'r Biennale a chynnal arddangosfa ddydd Sadwrn 9 Mai hyd ddydd Sul 22 Tachwedd 2026.

## Amserlen

- Dyddiad cau am gyflwyniadau: 1pm ddydd Mercher 4 Mehefin 2025
- Rhoi gwybod i'r rhai ar y rhestr fer: 16 Mehefin 2025
- Cyfweliadau: 23-24 Mehefin 2025
- Cyhoeddi'r comisiwn: canol Gorffennaf 2025
- Datblygu a chynhyrchu'r prosiect: Gorffennaf 2025 – Ebrill 2026
- Agor yn Fenis: 6, 7, ac 8 Mai 2026
- Arddangosfa gyhoeddus: 9 Mai 2026 – 22 Tachwedd 2026
- Teithio'r gwaith: 2027/2028



Sean Edwards
Undo Things Done,
golwg o'r gosodiad, 2019
Llun: Jamie Woodley

# Proses ymgeisio

Wrth fynegi eich diddordeb, rhaid ei uwchlwytho i'r porth.

Uwchlwythwch un ddogfen Word neu pdf nad yw'n fwy na 250MB. Rhaid i'r ffont fod o leiaf 12 pwynt.

Rhaid ichi gynnwys y canlynol:

1. **Cynnig curadurol ac artistig sy'n ymateb i'r cyfle** (ar y mwyaf 5 ochr A4 neu 25 munud o sain neu fideo)

   **Dylai gynnwys:**

   - cynnig am arddangosfa a'r fframwaith curadurol i'r artist. Soniwch am waith posibl yr artist ac am unrhyw waith newydd. Disgrifiwch unrhyw agweddau sy'n benodol i'r safle.
   - amlinelliad o'r berthynas rhwng y sefydliadau a'r unigolion yn y rhaglen a'r weledigaeth artistig.
   - dull yr ymgysylltu a'r rhaglenni a'r gweithgarwch digidol yng Nghymru gan gynnwys teithio'r gwaith.
   - ystyriaeth o amcanion, egwyddorion a meini prawf dewis Cymru yn Fenis.

2. **Hanes artistig** (fesul artist, 2 ochr A4 ar y mwyaf)

   - Tystiolaeth o waith yr artist gan gynnwys CVau a hyd at 4 enghraifft fesul artist o waith blaenorol/ cyfredol fel lluniau, testun neu ddolenni i sioe fideo.
   - Dylai'r sioe fideo fod yn 4 munud ar y mwyaf ac ar gael ar-lein rhwng 4 Mehefin a 1 Gorffennaf 2025. Rhaid darparu'r holl ddeunydd fideo a sain yn ddolenni i wefannau, Fimeo neu YouTube. Cynhwyswch wybodaeth.

3. **CVau a bywgraffiadau byr aelodau o'r tîm** (4 ochr A4 ar y mwyaf)
   - Cynnwys y gweithwyr, proffil y sefydliad, y staff allweddol a/neu'r cyfetholwyr a'r gweithwyr llawrydd a fydd yn rhan o'r prosiect gan gynnwys curadu, rheoli prosiect, technegol, dysgu ac ymgysylltu.
   - Nodi pwy fydd Cyfarwyddwr yr Arddangosfa a fydd yn gyfrifol am adrodd i'r Comisiynydd ar bob agwedd ar y prosiect gan gynnwys rheoli cyllideb.

4. **Cyllideb amlinellol** (defnyddiwch y templed)
   - Cyllideb amlinellol gan gynnwys targedu incwm ychwanegol posibl, nawdd a strategaeth i gefnogi'r arddangosfa mewn arian neu nwyddau.

5. **Cadarnhad eich bod ar gael ac yn gallu bodloni dyddiad cau'r prosiect** (1 ochr A4 ar y mwyaf)
   - Tystiolaeth bod aelodau allweddol o'r tîm gan gynnwys yr artist a'r sefydliad yn cymeradwyo eich cynnig.

## Mynegi diddordeb

1. Rhaid defnyddio ein porth ar-lein i ymgeisio.

   Os nad ydych wedi gwneud hyn o'r blaen, rhaid ichi gofrestru yn gyntaf. Mae gwybodaeth am sut i'w wneud yma.

   Os nad oes modd ichi gyrraedd y ffurflen ar-lein neu os oes angen cymorth pellach arnoch, cysylltwch â: grantiau@celf.cymru

2. Llenwch ffurflen gais Cymru yn Fenis ar y porth ar-lein.
3. Mynegwch eich diddordeb drwy ei uwchlwytho i'n porth ar-lein. Ar ôl inni gael eich cais, byddwn yn ei gydnabod.
4. Os yw'ch cais yn gymwys, byddwn yn ei asesu.

   Bydd y panel dewis (enwau i'w cyhoeddi) yn cynnwys aelodau o Grŵp Llywio Cymru yn Fenis a gweithwyr yn y celfyddydau gweledol sydd â phrofiad rhyngwladol helaeth.

   Bydd y panel yn gyfrifol am dynnu rhestr fer a dewis arddangosfa lwyddiannus Cymru yn Fenis. Ni fydd modd herio  penderfyniadau'r panel.

5. Os yw'ch cais yn cyrraedd y rhestr fer, byddwn yn anfon manylion y cyfweliad atoch. Os nad ydych ar y rhestr fer, byddwn yn ysgrifennu i esbonio pam a chynnig cyfle i gael adborth.

**1pm ddydd Mercher 4 Mehefin 2025 yw'r dyddiad cau.**

Ni fyddwn yn derbyn ceisiadau hwyr neu anghyflawn.

## Beth os oes angen cymorth hygyrchedd arnaf?

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, fformat hawdd i'w ddarllen, Braille, sain ac Arwyddeg. Ymdrechwn i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais. Gweithredwn Bolisi Cyfle Cyfartal.

Os oes angen cymorth hygyrchedd arnoch, mae rhagor o wybodaeth am beth mae modd inni ei gynnig a sut i'w drefnu ar ein gwefan.

**Clawr cefn:**
Cleave 03 (Transmission: Visions of the Sleeping Poet)
Cerith Wyn Evans, 2003
Llun: Polly Braden, © yr artist

## Beth os oes gennyf gwestiwn?

Os oes gennych gwestiynau am y cyfle neu os hoffech drafod eich syniadau ac a ydych yn gymwys, cysylltwch â'n tîm Cymru yn Fenis drwy e-bost, ein gwefan neu'r cyfryngau cymdeithasol: cymruynfenis@celf.cymru

### Mae sawl ffordd arall i gysylltu â ni

Ffôn: 03301 242733 (yr un pris ag â ffonio'n lleol)
10am-4pm ddydd Llun hyd ddydd Gwener

Gwefan: celf.cymru

Facebook: Cyngor Celfyddydau Cymru | Arts Council of Wales

Trydar: @Arts_Wales_

Instagram: celfcymruarts



Cymru yn Fenis
Wales in Venice
Il Galles a Venezia

celf.cymru